**Trawsgrifiad Recordio Beth yw ymwrthedd gwrthficrobaidd**

1

00:00:03,290 --> 00:00:06,890

Helo. Fy enw i yw WanYee. Rwy'n fferyllydd gwrthficrobaidd.

2

00:00:07,100 --> 00:00:12,200

Rwyf yma i siarad am ymwrthedd gwrthficrobaidd a beth yw ymwrthedd gwrthficrobaidd?

3

00:00:12,920 --> 00:00:16,969

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn digwydd pan fo bacteria, firysau,

4

00:00:16,970 --> 00:00:22,820

ffyngau a pharasitiaid yn newid dros gyfnod o amser ac nid ydynt bellach yn ymateb i feddyginiaethau gwrthficrobaidd.

5

00:00:23,240 --> 00:00:30,350

Mae hyn yn gwneud heintiau'n anos i'w trin ac yn cynyddu'r risg o ledaenu clefydau, salwch difrifol, ac mewn rhai achosion, marwolaeth.

6

00:00:30,980 --> 00:00:37,820

Oherwydd yr ymwrthedd hwn, mae cyffuriau gwrthficrobaidd yn dod yn aneffeithiol ac mae heintiau'n dod yn anodd neu weithiau'n amhosibl eu trin.

7

00:00:38,390 --> 00:00:39,740

Fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol,

8

00:00:39,740 --> 00:00:48,020

mae angen inni sicrhau defnydd darbodus o gyffuriau gwrthficrobaidd ac annog arferion gorau i atal datblygiad a lledaeniad heintiau sy'n gwrthsefyll cyffuriau.

9

00:00:48,440 --> 00:00:51,230

Gobeithio y bydd yr adnoddau ar y dudalen we hon yn ddefnyddiol i chi.